PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 | Cyfrol 159 | Rhif 11 | Mawrth 12, 2026 | 50c.

## Diwrnod Rhyngwladol y Menywod



*Menywod sy'n aelodau o Gyngor yr Undeb yn dal dwylo allan fel arwydd o'u hawydd i roi yn ystod cyfarfodydd y Cyngor yn Aberystwyth*

Thema'r diwrnod eleni yw 'Mae elw mewn rhoi.' Mae'r ymgyrch yn pwysleisio pŵer cydweithio a chefnogaeth – pan fydd pobl yn rhoi o'u hamser, yn cynnig cyngor, anogaeth ac adnoddau, mae'n helpu cymdeithas gyfan. Pan fydd menywod yn ffynnu, rydyn ni i gyd yn ffynnu.

'Dwi'n addunedi i roi o'm hamser i'n menywod ifanc ni,' meddai Elinor Wyn Reynolds, Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb yr Annibynwyr. 'Fe ddaeth menywod o'm blaen i gan gynnig cefnogaeth a chyngor ac rwy'n addunedi i roi hynny i'r genhedlaeth sy'n codi, oherwydd nhw yw menywod y dyfodol.'

Dywedodd Sian Meinir, o'r Rhwydwaith Merched, ei bod hi'n addunedi i wneud ei gorau glas dros ei eglwys leol a'i chymuned. 'Rwy am roi o'm hunan fwyfwy i'm cyfeillion a'm teulu a phawb sy'n annwyl i mi. Ond yn fwy na hynny, rwy am roi trwy godi fy llais yn gadarn dros heddwch.'

Ychwanegodd y Parchg Beti-Wyn James bod rhoi yn adeiladu cymdeithas. 'Mae rhoi yn arwydd o gariad, ac fel Cristnogion dylai fod yn rhan o'r ffordd yr ydym yn ymddwyn ac yn byw.'

## Nid rhyfela yw'r ateb

Nid trwy drais a rhyfela y mae datrys sefyllfa'r Dwyrain Canol, a dylai Cristnogion godi eu llais i fynnu cymod a chyfiawnder. Dyna ddatganwyd gan Gyngor Undeb yr Annibynwyr yn eu cyfarfod yn Aberystwyth dros y penwythnos a fu.



*Jean Lewis, Cadeirydd y Cyngor, Parchg Owain Llŷr Evans, Llywydd yr Undeb, a'r Ysgrifennydd Cyffredinol, Elinor Wyn Reynolds*

Wrth gytuno'n unfrydol i alw am gadoediad llwyr a chadarn, mynegwyd tristwch mawr am y creulondeb a'r lladd, a phryder bod y gwrthdaro'n lledu i wledydd ar draws y Dwyrain Canol yn sgil ymosodiad Unol Daleithiau America ar Iran, a'r ymateb i hynny.

'Yr ydym yn datgan fel cynrychiolwyr Eglwysi Undeb yr Annibynwyr Cymraeg na ellid cyfiawnhau unrhyw ddefnydd o drais na rhyfela fel cyfrwng i ddatrys trafferthion y Dwyrain Canol,' meddai'r Cyngor mewn datganiad i'r wasg a'r cyfryngau. 'Tristawn o weld pobl gyffredin yn cael eu targedu a'u lladd, a'r gwrthdaro'n lledu.'

'Galwn am gadoediad ar fyrder yn y Dwyrain Canol. Rhaid gwarchod cyfraith ryngwladol er mwyn sicrhau hyrwyddo cymod, diogelwch a'r gobaith o heddwch parhaol.' Ychwanegodd Llywydd yr Undeb, Owain Llŷr Evans, 'Nid oes esgus gennym fel Cristnogion rhag peidio â chodi ein llais dros yr hyn sy'n gyfiawn yn y byd.'

## Cyngor y gwanwyn

Cynhaliwyd Cyngor Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn Aberystwyth ar 6 a 7 Mawrth 2026. Dyma ychydig o flas yr hyn a drafodwyd yn yr Adran Tystiolaeth

### Cenhadaeth ddigidol

Rhoddodd Rhodri Darcy ddiweddariad cynhwysfawr ar y Genhadaeth Ddigidol, gan bwysleisio bod hwn yn gyfnod hynod brysur a rhoddwyd diolch i CWM am eu cefnogaeth. Un o'r datblygiadau mwyaf arwyddocaol yw'r Genhadaeth Glywedol, sef recordio'r pedair efengyl yn nhafodiaith Sir Benfro mewn partneriaeth â Llyfrau Llafar Cymru. Bydd y recordiadau ar gael ar y Bible App, gyda lansiad ym mhabell yr eglwysi yn yr Eisteddfod. Trafodwyd hefyd y Genhadaeth Gerddorol, sy'n cynnwys yr albymau *Tymhorau* a *Goleuni*. Mae'r rhain i'w canfod ar Vimeo ynghyd â fideos a bydd dosbarthiad ehangach ar lwyfannau digidol eraill. Awgrymwyd cyfleoedd pellach megis fersiynau amrywiol o fideos, ymweliadau â'r Cyfundebau a defnyddio llwyfannau cymdeithasol newydd.

### Y wefan

Cyflwynodd y Parchg Carwyn Siddall y datblygiadau diweddar i wefan yr Undeb. Bydd adran Hyfforddiant newydd yn cael ei lansio, gyda system mewngofnodi ar

*parhad ar dudalen 7*

# Hanes Ebeneser Caerdydd 1826–2026

*Dyma'r ail ran o'r erthygl ar ddechreuadau Ebeneser, Caerdydd.*


## Capel a bugail

Yn gynnar ym 1827 dewiswyd y llecyn i adeiladu capel lle saif canolfan siopa Dewi Sant arno nawr. Wedi penderfynu ar leoliad i'r capel, ystyriwyd pwy i'w gael yn weinidog. Roedd y Parchg. Lewis Powell, Capel Isaac, Sir Gaerfyrddin wedi pregethu yn Gymraeg i'r Cymry yn Womanby Street cyn dyddiau'r cerbyty ac wedi pregethu hefyd yng nghymanfa Morgannwg. Mae'n amlwg ei fod yn cael ei ystyried yn un cymwys.

Felly yng Ngorffennaf 1827 anfonodd yr Eglwys lythyr ato yn ei wahodd i ddod i Gaerdydd i drafod yr achos. A dyma ei gynnwys:

At y Parch Lewis Powell
Yr ydym fel cangen o Eglwys Crist dan yr enw Anymddibynwyr yn amddifad o weinidog i weinyddu i ni, ac yr ydym fel defaid heb un bugail ac mewn newyn mawr am ymborth enaid, ac y mae pawb sy'n perthyn i'r gangen hon yn rhoddi galwad i ddod atom i weinidogaethu dros Dduw yn ein plith.
Gras ein Harglwydd Iesu Grist a fyddo gyda chwi.

*Arwyddwyd gan 5 diacon a 26 o aelodau.*



Cyn ateb y llythyr hwnnw ymgynghorodd Lewis Powell â Griffith Hughes y Groes-wen. 'Er mwyn popeth, deuwch i Gaerdydd a'r Arglwydd a'ch llwyddo' oedd cyngor gweinidog y Groes-wen ac felly penderfynodd Lewis Powell ymweled â'r cerbyty neu'r 'tŷ cwrdd' fel y gelwai ef, 'tŷ cul a hir, a phulpud a bord a ffwrwmau.'

Gwnaed argraff ddofn ar Lewis Powell o weld yr eglwys fechan mor ddiymgeledd ag addawodd y deuai i bregethu yno ym mhen pythefnos, sef 3 Medi, 1827. Erbyn y Sul hwnnw yr oedd galwad yn barod iddo, wedi'i harwyddo gan bump o swyddogion a chwech ar hugain o'r aelodau. Dim ond 31 o aelodau oedd gan eglwys Ebeneser pan alwyd y gweinidog cyntaf.

Dangoswyd i Lewis Powell y fan yr oeddynt wedi ei ddewis i godi capel arno. Ni wnaeth y lle argraff ffafriol arno. Yn ôl y sôn dywedodd, 'Mae y lle yn fach, ac anghyfleus, ac i maes o'r dre, heb dŷ yn agos ac yn brid iawn.' Ystyrid ef bron yn gapel yn y wlad. Y fath gyfnewidiadau sydd oddi ar hynny. Derbyn yr alwad a wnaeth Lewis Powell a daeth ef a` i deulu i Gaerdydd ddiwedd Medi 1827.

## Agoriad y capel

Pregethu yn y cerbyty a wnâi Lewis Powell hyd nes y gorffennwyd codi'r capel. Gwnaed hynny yn Hydref 1828 a rhoddwyd i'r capel newydd yr enw cyfaddas 'Ebeneser. Dyddiad agoriad swyddogol y capel oedd 3 a 4 Rhagfyr 1828. Y Sul cyn gŵyl fawr yr agoriad swyddogol pregethodd Lewis Powell yn y capel – a dyma'r bregeth gyntaf a draddodwyd yno. Bychan oedd y capel ond erbyn hyn gallai hyd yn oed Lewis Powell ddweud amdano ei fod 'yn gyfleus a hardd.' Yn ei gofiant, mae Lewis Powell yn talu diolch i bawb am eu caredigrwydd gan gynnwys (a diau y bydd hyn yn syndod i lawer) 'i Iuddewon, i bobl Germany ac i Bapistiaid am eu rhoddion.' Yn y dyddiau hynny cynhelid pob oedfa, ysgol Sul a digwyddiad yn y capel.

## Gweddillion

Pan gliriwyd mynwent yr hen gapel ym Mharadise Place ym 1977, er mwyn adeiladu canolfan Siopa Dewi Sant, aethpwyd â'r gweddillion i fynwent Cathays. Ym 1989 penderfynwyd gosod cofeb er cof am Lewis Powell yn y fynwent. Ysgrifennodd Arfon Williams ddau englyn ar achlysur dadorchuddio'r gofeb.

O wireddu'n gyflawn freuddwyd bywyd
Lewis Powell, proffwyd
Cywir glew, ceir carreg lwyd
I gofio am a gafwyd

Gan ei eglwys, ac yn hyglyw heddiw
Yng Nghaerdydd mae'r cyfryw
Yn dywedyd nad ydyw
Yma'n ei fedd – mae e'n fyw.

*Bydd trydedd rhan yr erthygl hon yn y rhifyn nesaf o'r Tyst*

# Haw-tŵ

## Lawrlwytho fideos Undeb yr Annibynwyr i'ch cyfrifiadur

Mae'n wych gweld bod Undeb yr Annibynwyr yn cynhyrchu llawer mwy o ddeunydd digidol. Eu bwriad yn ystod y misoedd nesaf yw y bydd mwy o fideos o bob lliw a llun, caneuon a chartŵns yn ymddangos. Ond beth os wyt ti am ddefnyddio'r deunydd hwn mewn cyfarfod yn eich eglwys? Sut mae gwneud hynny? Y mae dwy ffordd i wneud hyn.




1. Yn gyntaf, gellir eu ffrydio yn fyw yn y cyfarfod. Ond mae hynny'n dibynnu llwyr ar gael wi-fi effeithiol yn eich capel.
2. Yr ail ffordd yw trwy lawrlwytho'r fideo i'ch cyfrifiadur neu i'ch ffongof fel eich bod yn gallu eu chwarae heb wi-fi. (Os ewch i gyfrif Youtube yr Undeb fe sylwch nad oes opsiwn i lawrlwytho yn uniongyrchol i'ch cyfrifiadur.)

   Ond – **a dyma sy'n bwysig** os edrychi di ar gornel dde gwaelod fideos yr Annibynwyr fe weli fod logo Vimeo yno. Clicia arno a bydd tudalen newydd yn agor. Yma, dan y fideo y mae logo lawrlwytho (download). Clicia ar hwn, ac yna gelli drosglwyddo'r fideo i ffeil ar dy gyfrifiadur.

Mae ychydig wybodaeth technegol yn werth ei gael a diolch i Rhodri Darcy am ei help.

Yr Adran Gydenwadol

MAWRTH 12 2026 RHIF 263

# Rhoddaf orffwys ichi, dewch

**Mudiad eciwmenaidd byd-eang a arweinir gan ferched yw Dydd Gweddi'r Byd. Paratowyd y gwasanaeth eleni gan ferched Cristnogol yn wynebu erledigaeth yn Nigeria. Roedd eu straeon o ffydd yn wyneb gorthrwm a braw wedi ysbrydoli merched a dynion ar hyd a lled Cymru a gymerodd ran yn y digwyddiad yn eu cylchoedd eu hunain.**


Ardal Colwyn a Llandrillo-yn-Rhos


Capel Seion, Dre-fach


Yorath, Cwmgïedd


Soar-Nercwys


Ebeneser, Llangybi


Eglwys Dewi Sant, Caerdydd


Eglwys Llandre, Ceredigion


Eglwysi Cynwyl Elfed, Hermon a Chwmdwyfran



Elinor Wyn Reynolds yn arwain cyfarfod yng Nghyngor Undeb yr Annibynwyr


Gofalaeth Thomas Charles, yr Annibynwyr, ac Eglwys Crist, y Bala

# Cymorth Cristnogol yn galw am gadoediad brys yn y Dwyrain Canol er mwyn gwarchod bywyd sifiliaid a pharchu cyfraith ddyngarol ryngwladol

**Dyma ddywedodd William Bell, Pennaeth Polisi ac Eiriolaeth yn y Dwyrain Canol dros Gymorth Cristnogol:**

'Rhaid i lywodraeth y Deyrnas Unedig weithio ar frys er mwyn dwyn y rhyfel hwn i ben cyn i'r dioddefaint cynyddol a achosir ar draws y rhanbarth gynyddu i fod yn greisis byd-eang heb unrhyw ddiwedd clir iddo mewn golwg.

'Gyda'r rhan fwyaf o ffiniau Gaza wedi eu cau, mae teuluoedd mewn perygl gwirioneddol o fod heb gynhaliaeth bwyd. Mae'r dadleoli pellgyrhaeddol ar draws Lebanon yn golygu bod brys mawr ar ein partneriaid i geisio asesu sut orau i gefnogi cymunedau, tra bo trais gan wladychwyr yn erbyn Palestiniaid yn cynyddu yn y Llain Orllewinol.'

**Galwad am heddwch parhaol a chyfiawn**

Wrth i'r rhyfel barhau yn y Dwyrain Canol, ac i nifer di-rif o deuluoedd wynebu ofn, colled ac ansicrwydd, mae Cymorth Cristnogol, fel nifer helaeth o fudiadau eglwysig a dyngarol ar hyd a lled y byd, yn galw am gadoediad brys ac am weddïo taer am heddwch.

Dywedodd y mudiad: 'Fel erioed, pobl gyffredin ddiniwed sy'n talu'r pris am ddegawdau o ddiffyg atebolrwydd a methiant gwleidyddol rhyngwladol yn y Dwyrain Canol. Ar yr adeg beryglus hon ar gyfer yr holl fyd, rhaid i lywodraeth y Deyrnas Unedig ddangos arweiniad a dewrder moesol.'


Daw'r newyddion yma, a rennir gan Gymorth Cristnogol, gan bartneriaid y mudiad yn y rhanbarth sy'n adrodd am y sefyllfa lethol a achosir wrth i bobl gael eu dadleoli. Dywed y partneriaid hynny ei bod yn amhosibl cynnig dihangfa i rai achosion brys, er enghraifft, i bobl oedrannus a rhai ag anableddau. Mae hyn yn ychwanegol at y prinder bwyd oherwydd bod y ffiniau wedi'u cau.

Mae Cymorth Cristnogol yn ein hannog i gadw ein llygaid a'n meddyliau ar yr hyn sy'n digwydd yn y Dwyrain Canol, ac i rannu beth fedrwn ni ar y cyfryngau cymdeithasol i genfogi eu partneriaid yn y rhanbarth.

- Mae Cymorth Cristnogol wedi ychwanegu tudalen at eu gwefan gyda gweddïau ac adnoddau ar gyfer cefnogwyr ac eglwysi sy'n chwilio am ffyrdd o gefnogi'r rhai sy'n cael eu heffeithio gan y gwrthdaro presennol: [Pray with us for the Middle East | Christian Aid]. Ceir dolen yno hefyd at: [Apêl Dyngarol y Dwyrain Canol | Christian Aid].



- Rhannwyd y weddi hon gan Gymorth Cristnogol yn Gymraeg a Saesneg ar eu tudalen Facebook. Mae croeso i chithau ei rhannu oddi yno hefyd: [Cymraeg Gweddi dros heddwch].




**S4C**

*S4C Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 15 Mawrth, am 18.45yh**
Ar Sul y Mamau, ymunwch â Lowri Morgan yn Llanrwst ar gyfer gwledd o emynau a pherfformiad Siriol Elin o glasur 'Y Darlun'.

**BBC radio cymru**

*Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 15 Mawrth, am 7:30yb a 4:30yp**
Rhaglen yng nghwmni rhai o aelodau Eglwys Ebeneser, Caerdydd, sydd yn dathlu 200 mlynedd ers ei sefydlu.

*Oedfa Radio Cymru*
**Sul, 15 Mawrth, am 12:00yp – Y Grawys o Gaernarfon – Sul y Mamau**
Oedfa dan arweiniad Mererid Mair

# Y GRAWYS – WYTHNOS 4

## Creu Mannau Gras




### Darlleniad

*Iago 1:19–27*

### Myfyrdod

Pan fyddwn yn wynebu sgwâr cyhoeddus dig a swnllyd, gallwn gael ein temtio i encilio i chwilio am fannau diogel. Gall y modd y mae'r byd ar-lein yn trin pethau a'u camgynrychioli deimlo'n arbennig o fygythiol.

Wrth i ni fyfyrio ar ein darlleniad ar gyfer heddiw, cawn ein hysgogi i feddwl ynglŷn â sut mae ein ffydd yn llunio sut y byddwn yn cyfathrebu ac ymgysylltu ag eraill. Nid yw'n syndod y rhoddir pwyslais mawr ar bwysigrwydd gwrando cyn i ni weithredu – ar Air Duw ac ar ein gilydd – fel y bydd cynnwys ein cyfathrebu yn adlewyrchu ein gwerthoedd a'n galwad fel disgyblion.

Gall encilio i siambrau adlais roi ymdeimlad o ddiogelwch. Nid yw hyn bob amser yn rhywbeth negyddol. Yn aml yn ein sgyrsiau eciwmenaidd mae'r rhai sy'n cymryd rhan yn dweud eu bod yn gwerthfawrogi'r undod a brofwyd wrth dreulio amser gyda'r rhai sy'n rhannu ein gwerthoedd a'n consýrn am gymdeithas. Gall hon fod yn ffynhonnell o gefnogaeth ac anogaeth sydd mawr ei hangen er mwyn cryfhau ein hymrwymiad yng ngwaith cyfiawnder cymdeithasol mewn cyd-destun ehangach. Mae rhoi sylw i'r cyd-destun ehangach hwn yn hanfodol oherwydd ei fod yn ein gwneud yn agored i wahanol safbwyntiau, yn herio ein rhagdybiaethau, ac yn ein helpu i wneud asesiadau cytbwys o sefyllfaoedd cymhleth.

Mewn cyd-destun eglwysig ar hyn o bryd, mae cryn fyfyrio a deialog ynglŷn ag ymgysylltu â llwyfannau cyfryngau cymdeithasol. Mae rhai eglwysi wedi penderfynu tynnu'n ôl o lwyfannau penodol, neu ohirio ymwneud â nhw, oherwydd pryderon am arferion anfoesegol a niweidiol, a'r effaith ar les unigolion a chymunedau. Mae eraill wedi gwneud penderfyniad ymwybodol i gadw a buddsoddi yn eu presenoldeb ar y llwyfannau hyn er mwyn ymdrechu i gynnig lle ar gyfer tystiolaeth Gristnogol ddilys, gan estyn gwahoddiadau i ddeialog a gweddi.

Cafwyd dau brif edefyn i'n hargymhellion yn ein sgyrsiau. Yn gyntaf, y byddwn yn archwilio gyda'n gilydd y posibiliadau a gynigir gan gyfryngau cymdeithasol ar gyfer cysylltu, estyn allan 'gwrando cymdeithasol' – gan ddefnyddio'r llwyfannau hyn fel ffordd o glywed pryderon na fyddai fel arall yn ein cyrraedd, ac i rannu ein negeseuon. Mae angen cefnogi'r ymgysylltiad hwn gydag addysg ynglŷn â risgiau, peryglon a chamgynrychioliadau cyfryngau cymdeithasol. Gallai mwy o gydweithredu ar draws gwahanol eglwysi a gyda phartneriaid eraill ein galluogi i ymhelaethu ar negeseuon ac ymateb yn strategol ar adegau o fygythiad, megis pan fydd cymunedau neu sectorau o gymdeithas yn cael eu camgynrychioli. Mae profiadau cadarnhaol diweddar yn y maes hwn i CTBI yn cynnwys cydweithio ar draws gwahanol sectorau o gymdeithas i gyfathrebu neges o undod i ffoaduriaid a cheiswyr lloches.

Ceir argymhelliad yr un pryd y byddai eglwysi yn helpu i herio ein gorddibyniaeth ar gyfryngau cymdeithasol a'r amgylchedd ar-lein, gan greu cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu personol a chysylltiad go iawn. Gall yr amgylchedd ar-lein deimlo'n llawer mwy diogel oherwydd gallwn gael mwy o reolaeth dros sut y byddwn yn rhyngweithio, ond gall y posibiliadau ar gyfer mwy o gysylltiad ac effaith orbwyso risgiau ymgysylltu personol.

Boed ar-lein neu'n bersonol, ni ddylem danbrisio'r cyfraniad y gallwn ei wneud i osod y tôn ar gyfer sgwrs, creu mannau gras ac ymgysylltiad llawn ffydd, wedi'u seilio ar wrando, lle mae ein cyfraniad at ddeialog yn adlewyrchu'r gwerthoedd sy'n deillio o'n ffydd.

### Cwestiynau i fyfyrio arnynt a'u trafod

- A yw eich defnydd o gyfryngau cymdeithasol wedi newid yn ystod y blynyddoedd diwethaf? Pa ffactorau sydd wedi dylanwadu ar unrhyw newidiadau?
- Pa mor effeithiol y mae'r Eglwys yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn eich cyd-destun?
- Sut hoffech chi weld cyfryngau cymdeithasol yn cael eu defnyddio ar gyfer cysylltu ac estyn allan?

### Gweithredu

- Ystyriwch a allech chi ddatblygu neu addasu strategaeth cyfryngau cymdeithasol sy'n bodoli eisoes yng nghyd-destun eich eglwys i gefnogi cydweithrediad eciwmenaidd wrth i chi rannu negeseuon negeseuon o wahoddiad, estyn allan a chroeso i'r sawl a allai fod yn teimlo fel eu bod heb eu clywed neu wedi eu dieithrio?
- A allech chi rannu rhai enghreifftiau o bethau sydd wedi eich pryderu yn ddiweddar ar y cyfryngau cymdeithasol? Sut mae'r Eglwys wedi bod yn ymateb i'r heriau hyn a beth mwy y gellid ei wneud?
- Allech chi nodi partneriaid posibl y tu hwnt i'r eglwysi sy'n cyfathrebu'n effeithiol mewn ffyrdd sy'n ceisio adeiladu pontydd a hyrwyddo cynhwysiant a helpu i ymhelaethu'r negeseuon hyn?

### Gweddi

Dduw cariadus,
Gweddïwn y byddwn bob amser yn cofio
treulio amser yn gwrando ar dy Air,
a gwrando ar ein gilydd,
gyda chalonnau agored i glywed dy gynllun ar ein cyfer.
Boed i ni dy gadw di
wrth galon ein holl gyfarfyddiadau,
boed yn bersonol neu ar-lein
ac y bydd ein ffydd yn ein harwain
yn y modd y byddwn yn cyfathrebu
gan greu mannau gras
yng nghanol dicter
a gwrthdaro.
Amen.

# Cofio'r Parchg Edward Griffiths (1937–2025)

Gyda thristwch y clywyd am farwolaeth sydyn Edward Griffiths, Bryn Caredig, Ffairfach a hynny ar nos Nadolig.

Eleni bu'n Ŵyl anodd, Gŵyl unig,
Gŵyl ei wên yn diffodd,
A Gŵyl un hwyr a'i galwodd
O'i deulu i'r Iesu'n rhodd.

Tudur Dylan Jones



Mae'r golled yn un enfawr i'w deulu ac i'r ardal gyfan. Treuliodd ddydd Nadolig yng nghwmni ei deulu, a bu farw yn dawel gyda'r nos. Er yn 88 oed, roedd yn ifanc ei anian a'i wedd. Bu'n weinidog arbennig o effeithiol am bron i 65 o flynyddoedd.

### Cefndir

Magwyd Edward yn Drefach Felindre, Dyffryn Teifi. Codwyd ef i'r weinidogaeth o gapel Soar, Penboyr ac ordeiniwyd ef yn 1961. Wedi cyfnod yn Llanboidy a Rhydyceisiaid, aeth i Garmel, Pen-bre. Symudodd wedyn i'r Hope ym Mhontarddulais, a thra roedd e yno, priododd â Rhiannon a ganwyd Owain yn fab iddynt. Symudodd wedyn i gapel Bethesda, Y Tymbl gan gymryd gofal yn ddiweddarach dros Philadelphia, Nantycaws hefyd. Tra yn Y Tymbl, ganwyd eu hail fab, Rhodri.

### Gweinidogaeth

Yn 1987 symudodd y teulu i Ffair-fach, a chymerodd Edward ofalaeth Capel Newydd, Llandeilo, Capel Isaac, Salem, Heolgaled, a Phenrheol. Ymunodd Seion, Llandybie â'r ofalaeth yn 1993 a Gosen, Llandybie yn ddiweddarach hefyd. Ymddeolodd yn swyddogol yn 2005, ond bu'n gofalu am eglwys Seion Porth Tywyn am gyfnod, yn ogystal â gwasanaethu'n achlysurol ac yn aelod ffyddlon yn y Capel Newydd, Llandeilo tan y diwedd. Roedd yn bregethwr arbennig gyda llais melfedaidd ond arddull agos atoch. Roedd ei ddiddordeb mewn pob math o bethau yn sicrhau pregethau hynod o ddiddorol, perthnasol ac amserol.

### Chwaraeon

Pan oedd e'n fachgen ifanc, roedd yn bêldroediwr arbennig, ac yn gapten ar dîm enwog Bargod Rangers. Cystal ei chwarae, cafodd gynnig 'treial' i Abertawe, ond roedd tynfa'r weinidogaeth yn gryfach. Serch hynny, cefnogodd dîm Abertawe ar hyd ei oes, a gofalodd nad oedd yr un o'i ofalaethau yn rhy bell o'r Vetch na'r Liberty! Ond roedd pob chwaraeon o ddiddordeb – o'r naid driphlyg, i redeg a beicio, o ddiddordeb mewn bocsio i chwarae snwcer. Yr hyn a roddai bleser mawr iddo yn ddiweddar oedd dilyn hynt a helynt ei wyrion a'i wyresau ym myd chwaraeon a pherfformio

### Teulu

Heb os, roedd y teulu yn bwysig iawn iddo – ac mae atgofion y teulu am ddyn a oedd yn mwynhau coginio, garddio, cadw gwenyn, magu defaid a cheffylau, canu mewn corau a chanu'r piano, cadw cwch a physgota afon a môr. Roedd wrth ei fodd yn beicio o gwmpas yr ardal ac yn mwynhau bod allan mewn pâr o shorts yn yr haul, naill ai yng Nghymru wrth garafanio o steddfod i steddfod, neu dramor ar y cyfandir. Roedd hefyd yn ddarllenydd brwd a diddordeb mawr mewn llenyddiaeth Gymraeg. Fel Cymro balch, cefnogai Blaid Cymru gan weithio drosti am ddegawdau. Yn lleol, roedd yn barod i wneud unrhyw beth dros y Gymraeg. Bu'n brwydro gan ennill y frwydr i sicrhau bws am ddim i ddisgyblion ardal Llandeilo i gael derbyn addysg uwchradd gyflawn Gymraeg, yn ysgol gyfun Gymraeg Bro Myrddin ar y pryd hynny. Bu'n ddosbarthwr lleol i'r *Lloffwr* yn ardal Ffairfach a Dyffryn Cennen tan y diwedd, a hynny am flynyddoedd lawer.

### Angladd

Mae'n amhosib cwmpasu holl ddiddordebau a gwaith Edward mewn un erthygl fel hon. Cynhaliwyd oedfa breifat i'r teulu a ffrindiau agosaf ar fore Sadwrn, 10 Ionawr yn amlosgfa Llanelli, gydag oedfa gyhoeddus o ddiolch a dathlu ei fywyd i ddilyn yn y Capel Newydd, Llandeilo. Daeth cannoedd i lanw'r capel i dalu diolch am ŵr a fu mor weithgar, ac am weinidog a roddodd gymaint i'w ofalaeth ac i'r ardal gyfan. Roedd yr oedfaon yng ngofal W. Dyfrig Davies, ffrind iddo a siaradodd y Parchg Meirion Evans gan ddwyn i gof yr amser pan oedd y ddau yn gweinidogaethu yn ardal Pen-bre. Meirion oedd gwas priodas Edward a Rhiannon. Darllenwyd cerdd gan Lois Campbell a Mared Dafydd, ac fe ganodd Betsan a Gwennan Campbell a Siwan Dafydd i gyfeiliant Nia Clwyd. Wrth yr organ roedd y cerddor dawnus Eric Jones, aelod o gapel yr Hope Pontarddulais. Roedd yno ganu rhagorol ac fe fyddai hynny wedi plesio Edward. Un peth mawr a nodweddai weinidogaeth y Parchg Edward Griffiths oedd y ffaith ei fod yn trin pawb yr un peth ac yn cynnwys y plant a'r bobl ifanc bob cyfle posib. Roedd nifer o gyn-aelodau'r Ysgol Sul yno yn tystio'n ddiamheuol i ddylanwad anhygoel Edward ar genedlaethau o blant yr ardal. Bu'n hyfforddi tîm pêl droed yr ysgol Sul hefyd gan ennill tarian pêl droed ysgolion Sul De Cymru yn fwy na'r un capel arall.

### Colled

Er bod gwaddol amlwg i waith Edward yn yr ardal, fe fydd yr ardal gyfan yn gweld ei golli. Roedd yn gymeriad hoffus, yn barod i siarad gyda phawb ac yn meddu ar bersonoliaeth hawddgar, agos atoch. Credai mewn tegwch a thrin pawb yn gyfartal. Gweinidogaeth i'r gymdeithas ac un gymdeithasol oedd ei un ef ac fe helpodd gymaint o bobl ar hyd ei oes. Estynnir cydymdeimlad â Rhiannon ei wraig, Owain a Rhodri y meibion, Deio a Begw, Efa ac Elis yr wyrion a'r wyresau, Cerys a Becky y merched yng nghyfraith, ynghyd â'r teulu i gyd a llu o ffrindiau arbennig. Coffa annwyl am Gymro, Cyfaill a Christion da.

**W.D.D.**

Eglwys Annibynnol Heol Awst, Caerfyrddin SA31 3AP

*Cyngerdd Dathlu 300 Mlwyddiant Capel Heol Awst*

**DYDD SUL, 22 MAWRTH 2026**
**AM 6.00 YR HWYR**

**Artistiaid:**
Fflur Wyn (Soprano)
Côr Ysgol Bro Myrddin
Adran yr Urdd Ffynnonddrain

Cyfeilydd – Sioned Beynon
Organydd – Meirion Wynn Jones

Cadeirydd – Prif Gwnstabl Ifan Charles, Heddlu Dyfed-Powys


Llywydd – Y Parchedig Beti-Wyn James Gweinidog

Mynediad £10 wrth y drws
Plant ysgol am ddim

*Croeso Cynnes i bawb*

Elw'r noson i'w rannu rhwng:
Côr Ysgol Bro Myrddin ac Adran yr Urdd Ffynnonddrain

# RHYFEL Y DWYRAIN CANOL



O'r diwedd mae Benjamin Netanyahu wedi cael ei ffordd. Mae'r rhyfel wedi dechrau ac Ayatollah Ali Khamenei wedi cael ei lofruddio, ynghyd â'i deulu. Mae Netanyahu wedi bod wrthi ers yn agos i 40 mlynedd yn rhoi pwysau ar Unol Daleithiau America i ymosod ar Iran, a gan fod Donald Trump yn ysu am dynnu sylw'r bobol at rywbeth heblaw scandal Epstein, mae wedi ildio i'r pwysau. Dyma ddau gymeriad dieflig yn cydweithio â'i gilydd i gyflawni rhagor o ddrygioni creulon. Llawenhânt mewn marwolaeth! Llofruddiwyd 165 o blant mewn ysgol gynradd yn Iran. Am yr eildro maent wedi torri ar draws trafodaethau diplomyddol er mwyn mynd i ryfel sy'n achosi'r fath gyflafan ar draws y Dwyrain Canol a thu hwnt. Pwy sydd yn mynd i ymddiried yn yr UDA fyth eto?

### Cefnogi'r treiswyr

Beth oedd ymateb Keir Starmer i'r ymosodiadau? Ai condemniad o'r UDA ac Israel am weithredu'n anghyfreithlon? Ai condemniad am ladd plant a phobol ddiniwed? Na, dim o gwbl. Ymosod a wnaeth ar Iran a'i chondemnio am 'amddiffyn ei hun' ac anfon awyrennau a llongau rhyfel i'r rhan yna o'r byd i gefnogi Trump. Onid yw rhagrith y dyn yn ddiarhebol? Rhoddwyd cefnogaeth i'r treiswyr gan Badenoch a Farage hefyd. Mae trachwant llygredig y cyfoethogion grymus yn creu uffern i'r diniwed. Fel y dywed Eseia: 'Y mae eu traed yn rhuthro at gamwedd, ac yn brysio i dywallt gwaed diniwed; bwriadau maleisus yw eu bwriadau, distryw a dinistr sydd ar eu ffyrdd; ni wyddant am ffordd heddwch, nid oes cyfiawnder ar eu llwybrau; y mae eu ffyrdd i gyd yn gam, ac nid oes heddwch i neb sy'n eu cerdded.'

### Tawelwch cywilyddus

Dyma bendraw ein tawedogrwydd ni. Wrth gadw'n dawel rydym wedi caniatáu i Netanyahu ac Israel a Trump wneud a fynnent yn y Dwyrain Canol ac ar draws y byd. Mae Israel, gyda chefnogaeth ein gwleidyddion, wrthi'n cyflawni hil-laddiad yn Gaza, a nawr wedi bomio Beirut a rhannau eraill o wlad Libanus gan anfon eu lluoedd arfog ar draws y ffin i feddiannu rhan o'r wlad honno. Trwy hyn oll mae'r mwyafrif ohonom wedi bod yn dawel; tawelwch sy'n cael ei ddehongli fel cefnogaeth gan y treiswyr. Ac er mawr gywilydd mae nifer wedi bod yn cefnogi'r 'tywallt gwaed gwirion', yn eu plith nifer sy'n honni eu bod yn dilyn Iesu. Fe allwn ddiolch iddynt fod pris nwy ac olew wedi codi'n aruthrol yn barod ar ôl cau culfor Hormuz i longau, gan gynnwys y llongau anferth sy'n cario nwy naturiol hylifedig (LNG) sy'n mewnforio 20% o'r nwy sydd ei angen ar Brydain trwy borthladd Aberdaugleddau.

### Rhybudd Iesu

Dyma ddyfyniad i'ch atgoffa o agwedd Iesu 'Nid pawb sy'n dweud wrthyf, "Arglwydd, Arglwydd", fydd yn mynd i mewn i deyrnas nefoedd, ond y sawl sy'n gwneud ewyllys fy Nhad, yr hwn sydd yn y nefoedd. Bydd llawer yn dweud wrthyf yn y dydd hwnnw, "Arglwydd, Arglwydd, oni fuom yn proffwydo yn dy enw di, ac yn dy enw di yn bwrw allan gythreuliaid, ac yn dy enw di yn cyflawni gwyrthiau lawer?" Ac yna dywedaf wrthynt yn eu hwynebau, "Nid adnabûm erioed mohonoch; ewch ymaith oddi wrthyf, chwi ddrwgweithredwyr." '

**Parchg Guto Prys ap Gwynfor**
**Cadeirydd Rhwydwaith Heddwch yr Annibynwyr Cymraeg.**

## Cyngor y gwanwyn – *parhad*



gyfer modiwlau a darlithoedd. Trafodwyd cynllun map rhyngweithiol 'Church Finder', a mynegwyd diolch am y gwaith sylweddol.

### Cyhoeddiadau a'r *Tyst*

Rhoddodd Margaret ddiweddariad ar y cyhoeddiadau swyddogol yn cynnwys *Y Cofiadur*, a'r newyddlen ddigidol *Rhwydwaith*, gan bwysleisio'r angen i eglwysi ddiweddaru manylion cyswllt ar gyfer *Y Blwyddiadur* ac er mwyn derbyn gwybodaeth gan yr Undeb. Adroddodd y Parchg Alun Tudur ar waith *Y Tyst*, gan nodi'r angen am fwy o gyfraniadau rheolaidd a newyddion lleol.

### Dyma'r Undeb

Cafwyd gwybod y bydd rhifyn newydd yn ymddangos cyn bo hir, gyda ffocws ar waith yr Undeb a'r trefniadau talu aelodaeth newydd sy'n symud i fis Mai.

### Gwaith ieuenctid a hyfforddiant technegol

Trafodwyd datblygu gwaith gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd, gan ddechrau gyda 'scoping exercise' i ddeall anghenion. Pwysleisiwyd yr angen am strategaeth glir a rhannu arfer dda. Rhoddodd Rhodri Darcy ddiweddariad ar hyfforddiant TGCh, gan gynnwys sesiynau PowerPoint, hyfforddiant ar Facebook a Google Sites, a rhannu gwybodaeth am offer AI.

### Materion eraill

Nodwyd fod Cyfundeb Gorllewin Morgannwg wedi dechrau dosbarthu'r *Tyst* yn rhad ac am ddim i eglwysi.

**W. Rhys Locke**



*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru

*Golygyddion*
Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# Gŵyl Dewi

## Eglwysi Caerfyrddin yn dathlu'r ŵyl ar y cyd



Bu'n draddodiad ers blynyddoedd i gynnal oedfaon Gŵyl Dewi undebol yng Nghaerfyrddin. Cychwynnwyd penwythnos y dathlu gyda pharêd drwy'r dref a chynrychiolwyr o gapeli ac eglwysi'r dref yn bresennol. Yna ar ddydd Sul 1 Mawrth, tro'r Priordy oedd rhoi cartref i'r oedfa deulu eleni, a oedd dan arweiniad plant pedwar o ysgolion Sul Cymraeg y dref sef Y Babell Zion Newydd, Eglwys Crist, Elim Ffynnon-ddrain a'r Priordy. Cyflwynodd y plant eu gwaith yn arbennig a chafwyd neges bwrpasol gan Mererid Hopwood. Hyfryd oedd cael cwmni maer y dref, y cynghorydd Heledd ap Gwynfor (ac aelod o'r Priordy) a gyflwynodd ddarlleniad o'r Testament Newydd yn yr oedfa. Band y Priordy oedd yn cyfeilio a lluniwyd sgript yr oedfa gan y Parchg Beti-Wyn James.

Yna yn yr hwyr, cynhaliwyd oedfa gymun undebol yn Elim, Ffynnon-ddrain gyda chynrychiolwyr o eglwysi a chapeli Cymraeg y dref yn cymryd rhan. Y pregethwr gwadd oedd y Parchg Randolph Thomas. Gwnaed casgliad yn y ddwy oedfa tuag at brynu Beiblau Cymraeg i ddisgyblion ysgolion Cymraeg y dref. Do, bu'n benwythnos arbennig yn ein tref. Bu'r dathliadau yn parhau am rai diwrnodau wedyn gan ei bod yn 'Wythnos y Daffodil' yng Nghaerfyrddin a phresenoldeb yr eglwysi a'r capeli yn amlwg ym mhob agwedd o'r dathliadau – o giniawau Gŵyl Dewi i Dalwrn y Beirdd. Diolch am bob cyfle ac am bob cefnogaeth i'r Ŵyl eleni eto.



# Salem, Caernarfon

Dim yn aml iawn bydd Dydd Gŵyl Dewi yn disgyn ar y Sul – ond roedd eleni! Y tro diwetha' ddigwyddodd hyn oedd yn 2020 – anodd yw anghofio'r flwyddyn honno. A bydd yn digwydd eto yn 2037 – rhag ofn eich bod yn pendroni am hynny!

Mae yna rhywbeth arbennig am gael dathlu dydd ein Nawdd Sant ar y Sul ac mewn oedfa. Fel arfer ar y Sul agosaf at y 1af y byddwn yn cynnal oedfa Gŵyl Dewi yn Salem. Ond eleni roedd cyfle i ddathlu ac addoli. Cawsom oedfa deulu hyfryd gyda'r plant wedi gwisgo mewn gwisg Gymreig neu fel aelodau o dîm rygbi neu bêl-droed Cymru. Roedd yn braf clywed y plant yn dweud am eu hoff fannau yng Nghymru a diolch i Elsi Mai am ein harwain mewn gweddi. Cawsom gyfle yn yr oedfa hefyd i gael cwis i'n helpu i ddysgu mwy am Dewi Sant a chofio geiriau ei bregeth enwog; 'Byddwch lawen, Cedwch eich ffydd a'ch cred a gwnewch y pethau bychain a welsoch ac a glywsoch gennyf fi.'

Buom yn myfyrio hefyd ar adnodau o Lythyr cyntaf Paul at y Corinthiaid: 'Gwyliwch eich hunain. Daliwch i gredu. Byddwch yn ddewr. Byddwch yn gryf. Gwnewch bopeth mewn cariad.'

Yn dilyn yr oedfa roedd cyfle am baned a sgwrs – a chacen gri, wrth gwrs yn y festri.



*Dyma lun o'r plant; Gwion, Osian, Ifan, Tomos, Elsi, Gwen, Alys, Lleu, Begw ag Elsi Mai ar ôl mwynhau llond bol o gacennau cri!*

*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*